


Pecyn Dogfen Cyhoeddus



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley


Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE
Park Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

Clwydian Range and Dee Valley AONB
Loggerheads Country Park, Nr. Mold, Denbighshire CH7 5LH

Ffon | Tel: 01352 810614 | **Ffacs | Fax:** 01352 810644
E-bost | E-mail: clwydianrangeanddeevalley@denbighshire.gov.uk
Gwefan: www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/
Web: www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/

 www.facebook.com/Clwydian Range & Dee Valley AONB

 @Clwyd_Deer_AONB

At: Aelodau'r Cyd-bwyllgor
Ardal o Harddwch Naturiol
Eithriadol Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy

Dyddiad: 17 Mehefin 2016

Rhif 01824 712589
Union:

Ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Dydd Gwener, 24 Mehefin 2016 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, WRECSAM.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

AGENDA

- 1 CYFLWYNIAD, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**
- 2 ETHOL CADEIRIYDD AC IS-GADEIRYDD**
- 3 PENODIADAU AHNE I FWRDD TREFTAETH Y BYD A BWRDD CADWYN CLWYD**
Ystyried adroddiad llafar gan y Swyddog AHNE.
- 4 COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR AR Y CYD A GYNHALIYD AR 26 CHWEFROR, 2016 (Tudalennau 5 - 16)**

Derbyn Cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 26 Chwefror, 2016 (copi ynghlwm).

5 COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 13 MAI 2016 (Tudalennau 17 - 28)

Derbyn, er gwybodaeth Cofnodion cyfarfod y Bartneriaeth AHNE a gynhaliwyd ar 13 Mai 2016 (copi'n amgaeedig).

6 CYD-BWYLLGOR ALLDRO A CHYFRIFON 2015/16 A'R GYLLIDEB 2016/17 (Tudalennau 29 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a Sicrwydd (copi ynghlwm) ar sefyllfa gyllideb referniw'r AHNE a chadarnhad o gyllideb y Cydbwyllgorau ar gyfer 2016/17.

7 CYFLWYNIAD GAN GYFEILLION BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Ystyried cyflwyniad (ddim ynghlwm) gan Gyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL AHNE (Tudalennau 47 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog AHNE sy'n amlygu'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Tîm AHNE a'i Bartneriaid (copi ynghlwm).

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DDATBLYGU GYNALIADWY (Tudalennau 77 - 112)

Ystyried adroddiad blynyddol (er gwybodaeth yn unig) ar y gronfa ddatblygu gynaliadwy (copi ynghlwm).

10 CRYNODEB O YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO AHNE HYDREF 2015 - MAWRTH 2016 (Tudalennau 113 - 120)

Ystyried crynodeb o ymgynghoriadau cynllunio AHNE er gwybodaeth yn unig (copi ynghlwm).

11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 121 - 124)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (copi'n amgaeedig).

12 CYFLWYNIAD AR BROSIECT PARTNERIAETH CYFOETH NATURIOL CYMRU

Ystyried cyflwyniad (ddim ynghlwm) ar Brosiect Partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a'r AHNE.

13 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Ystyried dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn y dyfodol:

25 neu 18 Tachwedd, 2016.

17 Chwefror, 2017 neu 3 Mawrth, 2017.

16 neu 23 Mehefin, 2017.

10 neu 17 Tachwedd, 2017.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Bernie Attridge
Derek Butler
Hugh Evans

Hugh Jones
Huw Jones
Ian Roberts

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Cofnodion cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ruthun, Dydd Gwener, 26 Chwefror 2016 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Derek Butler (CSFf), Hugh Jones (Cadeirydd) (CBSW) a Huw Jones (CSDd).

HEFYD YN BRESENNOL

Dirprwy Swyddog Monitro / Cyfreithiwr (CSDd - LJ), Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir y Fflint (CSFf - TW), Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (CSDd - HS), Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth (CSDd - HR), Uwch Swyddog Cefn Gwlad AHNE (CSDd - DS), Uwch Gyfrifydd Rheoli (CSDd - GW), Uwch Swyddog Sicrwydd (CSDd - PO'H) Uwch Swyddog Cyllid (CSDd - HM) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CSDd - CIW).

1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr B. Attridge (Cyngor Sir y Fflint), Hugh Evans (CSDd), Ian Roberts (CBSW) a Paul Mitchell a Carol Rothewell (CNC).

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

2 COFNODION CYFARFOD Y CYDBWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 26 MEHEFIN, 2015

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2015.

Cywirdeb:-

Hefyd yn bresennol: - Nodwyd fod Tom Woodall yn cael ei gyflogi gan Gyngor Sir y Fflint ac nid gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Awgrymwyd hefyd bod Martin Howarth yn cael ei restru cyn David Shiel ar y rhestr o swyddogion yn bresennol.

5. Cyfansoddiad Drafft a Chylch Gorchwyl y Bartneriaeth AHNE: - Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad bod y farn a fynegwyd yn nodi ei bod yn "annheg" y dylai

Aelodau Etholedig yr Awdurdod Lleol gael dirprwyon tra bod grwpiau eraill ddim yn cael rhai.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at frawddeg olaf y trydydd paragraff ar dudalen 11 "Ar ben hynny, ni fydd unrhyw ddirprwyo ar swyddogaethau gweithredol yn atal yr Awdurdod ei hun rhag bod yn gyfrifol am y swyddogaethau hynny, a bydd hyn bob amser yn cael ei gadw" a chyfeiriodd at yr angen am eglurhad. Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro/Cyfreithiwr mai'r Awdurdodau eu hunain sy'n peidio â bod yn gyfrifol am y swyddogaethau o dan sylw. Mewn achos yr Awdurdod yn gofyn i'r Awdurdod arall i gynnal swyddogaeth weithredol ar ei ran, byddai'n dal i gadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal y swyddogaeth benodol. Crynhowyd manylion dirprwyo swyddogaethau gweithredol gan yr Awdurdod gan y DMO/S.

Nodwyd hefyd y dylid diwygio'r cyfeiriad at "Cais Cynllunio", yn y pedwerydd paragraff ar dudalen 11, i ddarllen fel "Pwyllgor Cynllunio".

PENDERFYNWYD – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

3 COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 16 HYDREF, 2015

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Partneriaeth AHNE a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2015.

Amlygodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y prif bwyntiau o fewn y cofnodion a oedd yn cynnwys:-

- Gwerth y Cynllun Arddangos Bathodyn AHNE a oedd wedi ennyn busnesau lleol i gymryd rhan, ac amlinellwyd manteision y cyrsiau.
- Fframwaith a Chylch Gorchwyl yr AHNE. Cytunwyd y dylai tymor swydd ar gyfer Cadeirydd y Partneriaethau fod yn flwyddyn o hyd, a bod aelodau eraill yn cael eu dirprwyo ar gyfer pob categori.
- Ystyriwyd a chytunwyd ar benodi Aelodau i Grwpiau Gweithio mewn Partneriaeth. Mae manylion y pum Gweithgorau wedi eu darparu.
- Bellach roedd gan Gyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 120 o aelodau. Cytunodd y Pwyllgor fod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon i Gyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cydnabod y gwaith a wnaed ganddynt. Maent hefyd yn cymeradwyo'r awgrym eu bod yn cael eu gwahodd i roi cyflwyniad i gyfarfod o'r Cydbwyllgor yn y dyfodol, yn amlinellu'r gwaith a wnaed ganddynt.
- Darparwyd manylion o ymweliadau safle, ac amlygwyd pwysigrwydd cynnal y bartneriaeth. Cyfeiriodd y Cadeirydd at werth a manteision cynyddu ymwybyddiaeth. Darparodd Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fanylion o ymweliadau safle i ddod a oedd yn cynnwys ymweliad â Chwarel Aberduna, Yr Wyddgrug.

PENDERFYNWYD - derbyn y cofnodion.

4 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Mae copi o'r rhaglen waith i'r dyfodol diweddaraf wedi'i ddsbarthu yn flaenorol.

Mae aelodau'r Cydbwyllgor yn ystyried y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ac amlygwyd y pwyntiau amlwg canlynol:-

- Mae'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gynllun Rheoli AHNE wedi ei gwblhau, ac mae'r ddogfen wedi'i ddsbarthu.
- Mae gwaith wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r Strategaeth Gwirfoddoli ac Allgymorth.
- Roedd y Bartneriaeth AHNE wedi'i sefydlu ac y byddai y Cylch Gorchwyl yn cael ei ystyried gan y Cydbwyllgor.
- Roedd Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi'i benodi, a darparwyd manylion am yr aelodaeth.
- Bellach roedd gan Gyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 120 o aelodau.
- Mae manylion y gwaith a wnaed ar Facebook wedi'u darparu mewn perthynas â Phen-blwydd Bryniau Clwyd yn 30 oed.
- Roedd staff yn mynychu cyfarfodydd Twristiaeth a Datblygu Gwledig mewn perthynas â'r Strategaeth Twristiaeth AHNE.
- Mae'r gweithredu a hyrwyddo llenyddiaeth newydd wedi ei wneud mewn perthynas â'r Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, esboniodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy nad oedd gwaith wedi cychwyn eto mewn perthynas â'r Prosiect Trefoli, oedd yn golygu mynd i mewn i gytundeb â NEWTRA a Phrifyrdd yr Awdurdod Lleol i barchu natur wledig yr AHNE.

PENDERFYNWYD - *Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.*

5 CEISIADAU CYNLLUNIO AHNE Y PENDERFYNWYD ARNYNT

Crynodeb o Ymgynghoriadau Cynllunio AHNE ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill, 2015 i fis Medi 2015 eisoes wedi'u dosbarthu er gwybodaeth.

Ystyriodd y Cydbwyllgor y crynodeb o Ymgynghoriadau Cynllunio AHNE a ddsbarthwyd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at achosion mewn adroddiadau lle mae pryderon wedi'u mynegi a dewisiadau eraill wedi cael eu hawgrymu. Teimlai y byddai o fantais pe gellid darparu arwydd ynghylch a ydi argymhellion o'r fath wedi cael eu derbyn. Awgrymodd y Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio proses codio lliw. Cefnogodd y Pwyllgor yr awgrym y dylid archwilio Ceisiadau Cynllunio a gyflwynir dros gyfnod o nifer o flynyddoedd, mewn perthynas â'r AHNE a Safle Treftadaeth y Byd, i weld a oeddent wedi cael eu derbyn.

Awgrymodd y Cadeirydd y gellid manteisio ar y cyfle i argymell y gellid defnyddio cyllid Adran 106 gan rai o'r prosiectau.

Eglurodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fod 103 o Geisiadau wedi dod i law. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cynllunio AHNE Bryniau Clwyd am y gwaith a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau a dderbynnir.

PENDERFYNWYD – *y dylid derbyn yr adroddiad a nodi a gweithredu'r sylwadau.*

6 CYFLWYNIAD EIN TIRWEDD DDARLUNIADWY

Esboniodd yr Uwch Swyddog Hamdden (CSDd) (USH) mai "Ein Tirlun Darluniadwy" a fyddai un o brif ffocws y gwaith ar gyfer y Tîm AHNE dros y saith mlynedd nesaf. Eglurwyd mai dyma'r ail Gais a wnaed i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a oedd yn cynnwys ardal wahanol i'r Cais cyntaf.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi gofyn i faes penodol gael ei nodi a chefnogwyd yr ail Gais. Eglurwyd bod y Prosiect Darluniadwy yn seiliedig ar dirlun ysbrydoledig Dyffryn Afon Dyfrdwy a'i Llwybrau Hanesyddol.

Derbyniodd y Cydbwyllgor gyflwyniad, "Ein Tirwedd Ddarluniadwy", gan yr Uwch Swyddog Hamdden (CSDd) a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â "Ein Darluniadwy":-

- Siwrneiau'r Gorffennol.
- Gwerth Treftadaeth.
- Angen Prosiect.
- Partneriaid y Prosiect.
- Yr hyn yr hoffem ei wneud.
- Cymunedau Ymgysylltiol.
- Mynediad i'r Darluniadwy.
- Gwarchod y Darluniadwy.

Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad yn y cyfarfod. Cytunwyd hefyd i fersiwn electronig o'r cyflwyniad gael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor, ynghyd â chopi o'r crynodeb byr o'r prosiect a fyddai'n cael ei ddosbarthu gyda'r disgrifiad swydd.

Ymatebodd y USH i gwestiwn oddi wrth y Cadeirydd a chadarnhaodd y byddai map llwybr neu raglen waith i'r dyfodol ar gael mewn pryd mewn tua pedair mis ar ddeg. Eglurodd y byddai cyfweiliad ar gyfer Rheolwr Prosiect ym mis Ebrill, 2016.

Hysbyswyd yr Aelodau mai AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a fyddai'n bartner arweiniol ar gyfer y prosiect, gyda chyfrifoldeb a rennir, a fyddai'n cael ei fonitro gan CDL. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai adroddiadau diweddarau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor.

Mae effaith y prosiect ar Ogledd Ddwyrain Cymru, o ran cysylltiadau allgymorth a phrosiect, wedi'u darparu gan yr USH. Amlygodd y Cynghorydd D. Butler y pwysigrwydd o sefydlu cysylltiadau gyda'r gymuned leol ac i ddatblygu Map Reidiau Ardaloedd Gwledig.

Cyfeiriodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy at y safon uchel ac amrywiaeth o gysylltiadau cludiant cyhoeddus sydd ar gael yn yr ardal, a

chyfeiriwyd yn arbennig at y gwasanaethau bws lleol a thacsis dŵr. Eglurodd yr USH bod y Prosiect wedi deillio o'r meysydd a nodwyd yn y gwaith o reoli Cynllun Treftadaeth y Byd a Chynllun Rheoli AHNE, lle mae'r cyhoedd wedi mynegi ffafriaeth am deithiau cerdded byr. Pwysleisiwyd y byddai'n bwysig i adeiladu a datblygu ar y wybodaeth a dderbyniwyd gan y cymunedau lleol a oedd wedi dod i law drwy ymgynghoriadau cyhoeddus.

PENDERFYNWYD - bod y Cydbwyllgor yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

7 CYLLIDEB Y CYDBWYLLGOR

Dosbarthwyd yr adroddiad yn flaenorol gan yr Uwch Gyfrifydd Rheoli (CSDd) sy'n rhoi manylion sefyllfa monitro cyllideb refeniw yr AHNE ar gyfer 2015/16 yn ogystal â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2016/17.

Mae'r UGRh, gyda chymorth gan yr Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd (CSDd), wedi cyflwyno'r adroddiad a oedd yn darparu crynodeb o gyllideb refeniw yr AHNE ar gyfer 2015/16, fel y manylir yn Atodiad 1. Roedd cyllideb gwariant gros yr AHNE yn £420K, gyda'r sefyllfa yn ragolwg gorwariant o £3k. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2016/17 yn Atodiad 2, sy'n cynnig cyllideb gwariant gros o £440K.

Caiff y gyllideb ei chyflwyno fel 2 ran; Craidd a Rhanbarthol. Mae'r gyllideb Craidd yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny sy'n isafswm swm cyfredol sy'n ofynnol i weithredu'r gweithgareddau AHNE yn ystod y flwyddyn gyfredol. Eglurwyd y gall y gyllideb amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar gyllid allanol a mewnol. Mae'r gyllideb Ardal yn ymwneud â gwariant i gyflawni prosiectau yn y gwahanol ardaloedd ALI o'r AHNE. Gallai'r gyllideb gynnwys staff nad ydynt yn rhai craidd yn gweithio ar brosiectau penodol yn yr AHNE yn ystod y flwyddyn. Bydd y gyllideb hon yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a hyd yn oed o fewn y flwyddyn yn dibynnu ar gynnydd y prosiect a ffynonellau cyllid.

Mewn ateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, eglurwyd bod y codiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ei gynnwys yn y cronfeydd wrth gefn.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y ffigyrau Yswiriant Gwladol a Phensiynau wedi cael eu hymgorffori yn y ffigurau yn Atodiad 2. Fodd bynnag, nid yw lwfans ar gyfer dyfarniad cyflog wedi ei gynnwys. Cadarnhawyd y gallai hyn fod yn oddeutu 1%. Hysbyswyd y Pwyllgor bod lwfans wedi cael ei gynnwys ar gyfer y posibilrwydd o gynnwys swydd Partneriaeth Gymunedol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H.LI. Jones at y gyllideb o £1.5k ar gyfer gwisgoedd ar gyfer 2016/17, a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Rhoddodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fanylion dyraniad o'r gyllideb mewn perthynas â nifer y staff. Hysbysodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y Pwyllgor y bu cynnydd o £1.4k mewn perthynas â'r tanysgrifiadau i Gymdeithas Genedlaethol y AHNEau

Roedd manylion risgiau posib a'r broses ymgynghori a gynhaliwyd wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. Cadarnhawyd y gallai unrhyw newidiadau i lefelau incwm beri risg i gyflwyno prosiectau yn y dyfodol a'r gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Rheoli AHNE.

PENDERFYNWYD - bod y Cydbwyllgor:-

- (a) yn nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn ariannol eleni, fel yn Atodiad 1, ac yn
- (b) cymeradwyo cyllideb arfaethedig 2016/17

8 SWYDD BOSIBL PARTNERIAETH GYMUNEDOL CYFOETH NATURIOL CYMRU

Cafodd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cefn Gwlad (CSDd) ei ddsbarthu yn flaenorol am y potensial i sefydlu Swydd Partneriaeth Gymunedol ar gyfer rhan ddeheuol yr AHNE mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Hysbyswyd y Cydbwyllgor gan yr Uwch Swyddog Cefn Gwlad bod penderfyniad wedi cael ei geisio i sicrhau bod adnoddau ar gael er mwyn cael arian cyfatebol ar gyfer Swydd ar y cyd rhwng AHNE – CNC. Ers 2011 mae AHNE Bryniau Clwyd wedi ei ymestyn i ymgorffori Dyffryn Dyfrdwy, ac ers 2011 nid oes unrhyw adnodd staffio ychwanegol wedi bod i helpu ddatblygu cysylltiadau gyda'r cymunedau hyn i gwrdd â'r potensial i ddatblygu gwaith prosiect. Felly, mae'n fwy anodd i'r cymunedau hyn gael mynediad at y manteision a ddaw yn sgil bod yn rhan o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Ar hyn o bryd mae gan yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drefniant partneriaeth gyda thimau gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan ganolog o Fryniau Clwyd, o amgylch ystâd goedwig Cyfoeth Naturiol Cymru ym Moel Famau, Nercwys a Llangwyfan. Mae'r swydd Ceidwad Cymunedol a ariannwyd mewn partneriaeth ar y cyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu nifer o brosiectau cymunedol o amgylch bioamrywiaeth, pobl ifanc ac ysgolion, sgiliau a gwelliannau mynediad, ac wedi cyrraedd cymunedau yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Mae yna botensial i ehangu'r bartneriaeth hon i Ddyffryn Dyfrdwy am gyfnod o 2 flynedd ac i greu Swydd Ceidwad Partneriaeth arall i weithio'n benodol gyda chymunedau o rannau newydd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Roedd CNC wedi dyrannu adnoddau i ariannu'r swydd yn rhannol ac roeddent yn awyddus i ehangu'r bartneriaeth i ardal ddeheuol yr AHNE. Byddai'r Swydd yn caniatáu i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddatblygu gwaith prosiect gyda'r cymunedau yn y rhan newydd o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn arbennig allbynnau gan gynnwys:-

- Datblygu Ceidwaid Ifanc ar gyfer Dyffryn Dyfrdwy
- Cyfleoedd i wirfoddoli
- Hyfforddiant mewn sgiliau traddodiadol
- Prosiectau cadwraeth bywyd gwylt cymunedol.
- Prosiectau ysgol
- Gwelliannau mynediad - teithiau cerdded cylchol

Byddai cost y swydd Warden yn gyfraniad gan CNC o £12,000 y flwyddyn am ddwy flynedd, gyda £12,000 y flwyddyn am ddwy flynedd yn cael ei geisio gan yr AHNE. Mae manylion y bwriad a chanlyniad yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Teimlai'r Cynghorydd D. Butler ei fod wedi bod yn gam rhagweithiol i hyrwyddo'r swydd a mynegodd ei gefnogaeth ar gyfer y penodiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y swyddogion bod adnoddau digonol wedi cael eu neilltuo i gefnogi ymgymryd â'r gwaith cysylltiedig.

PENDERFYNWYD - bod y Cydbwyllgor yn darparu adnoddau i gyd-fynd â chyfraniad cyfatebol o gronfa CNC at Swydd Partneriaeth.

9 CYLCH GORCHWYL A FFRAMWAITH PARTNERIAETH YR AHNE A DIWEDDARU A PHLETHU AG ADRODDIAD CYTUNDEB CYFREITHIOL Y CYDBWYLLGOR

Dosbarthwyd adroddiad yn flaenorol gan Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (CSDd).

Eglurodd y Swyddog ANHE bod y ddogfen newydd wedi cael ei hadolygu eto gan Swyddogion Gweithgor AHNE ar 10 Medi, 2015. Ymgynghorwyd â Phartneriaeth AHNE ar 16 Medi, 2015, ac ail-ymgynghorodd y Cyd-bwyllgor ar 22 Medi, 2015. Mae'r Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi ei gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

Eglurodd y Swyddog AHNE fod Aelodau'r Bartneriaeth yn bartneriaid allweddol wrth gyflwyno'r Cynllun Rheoli, ac y byddai'r ddogfen ddiwygiedig yn cyfrannu tuag at lywodraethu effeithiol. Hysbyswyd y Cydbwyllgor mai sero fyddai'r gost, ac eithrio amser swyddogion, a bod copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a wnaed ar y penderfyniad wedi ei gynnwys fel Atodiad 2 i'r adroddiad.

Mewn ateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhawyd y byddai gofyniad i gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg a chadarnhaodd Cyfreithiwr (CSDd) y gallai hyn gael ei gynnwys yn y ddogfen.

Gwnaeth y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy gyfeirio'n benodol at y Pwyntiau canlynol o fewn Atodiad 2:-

- Pwynt 5 - y frawddeg "Nid yw'r Cydbwyllgor hwn yn gorff allanol". Pwysleisiodd y Cyfreithiwr (CSDd) nad oedd y Cydbwyllgor a Phartneriaeth AHNE yn gorff allanol, ond bod Cydbwyllgor o'r tri Awdurdod perthnasol. Tynnodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sylw'r Aelodau at Atodiad 2, sef y Diagram o Strwythur AHNE.
- Pwynt 16 - Cytunwyd bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bartneriaeth yn cael eu hethol gan y Bartneriaeth AHNE llawn am gyfnod o 1 flwyddyn. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D. Butler, cadarnhaodd y Swyddog

ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy bod cytundeb wedi'i wneud y gallai unrhyw Aelod o'r Bartneriaeth gael ei benodi/phenodi'n Gadeirydd neu Is-gadeirydd.

- Pwynt 26 - Cael ei ddiwygio i ddarllen fel "Mae'r Swyddog AHNE a Swyddog CNC gyda'r awdurdod dirprwyol i benderfynu ceisiadau am grantiau o hyd at £3000".

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd dyma'r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor yn diolch i'r swyddogion am y gwaith a wnaed.

PENDERFYNWYD - bod y Cydbwyllgor yn cefnogi Fframwaith a Chylch Gorchwyl y Bartneriaeth AHNE.

10 ADRODDIAD CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO AHNE

Mae adroddiad a ddisbarthwyd yn flaenorol gan y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn galluogi'r Cydbwyllgor i ymateb mewn modd amserol, effeithiol ac effeithlon i ymgynghoriadau cynllunio, gan yr Awdurdodau awdurdodau cyfansoddol.

Eglurodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy mai un o swyddogaethau'r Cydbwyllgor ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yw ymateb i ymgynghoriadau cynllunio a datblygu y cyfeirir at yr AHNE am sylwadau. Mae'r rhan fwyaf o ymgynghoriadau yn ymwneud â chynigion yn yr AHNE, ond maent hefyd yn cynnwys y rhai y tu allan i'r ardal ddynodedig sydd o fewn lleoliad y dirwedd warchoddedig all effeithio ar yr AHNE.

Darparodd Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Gyd-Gynllun Dirprwyo Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Cyd-Gynllun Dirprwyo Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu AHNE wedi gosod fframwaith ar gyfer yr AHNE i gynyddu nifer y Ymgynghoriadau Cynllunio y mae'n cyfrannu ato. Cadarnhawyd mai sero fyddai'r gost, ac eithrio amser swyddogion, a bod y Swyddog AHNE wedi ymgynghori gydag adran Gyfreithiol Sir Ddinbych i wirio bod Swyddogion AHNE yn cyfarfod ac yn dilyn y gweithdrefnau cyfreithiol cywir.

Ar hyn o bryd mae Swyddog Cynllunio AHNE yn derbyn dros 150 o geisiadau bob blwyddyn; mae hyn wedi cynyddu 50% ers ymestyn yr AHNE i Ddyffryn Dyfrdwy. Fodd bynnag, dim ond 2 ddiwrnod yr wythnos wnaeth Swyddog Cynllunio AHNE ei weithio oni bai na ellid ymateb i ddirprwyo ychwanegol o fewn modd amserol i roi cynigion cynllunio a datblygu.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd dyma'r Cadeirydd yn diolch i'r swyddogion am y gwaith a wnaed o ran y Ceisiadau a dderbyniwyd.

PENDERFYNWYD - bod y Cydbwyllgor yn mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo i Ymgynghoriadau Cynllunio a Datblygu fel yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

11 ADRODDIAD YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN RHEOLI

Roedd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cefn Gwlad wedi'i ddsbarthu'n flaenorol ar yr ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Hysbyswyd y Cydbwyllgor gan yr USCG bod angen penderfyniad i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli AHNE yn ffurfiol. Daeth y cyfnod ymgynghori ar gyfer Rheoli AHNE i ben ym mis Awst 2015, ac roedd y Cynllun Rheoli wedi'i ddiwygio lle bo hynny'n briodol, yn unol â'r ymatebion a dderbyniwyd. Cafodd yr Adroddiad Ymgynghori ei gynnwys gyda'r rhaglen.

Eglurodd yr USCG bod gan yr Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gynhyrchu Cynllun Rheoli a'i adolygu bob 5 mlynedd. Mae'r Cynllun yn gosod agenda ar gyfer rheoli'r AHNE yn unol â Rhinweddau a Nodweddion Arbennig a nodwyd, ac wedi'i wneud o Strategaeth Rheoli, Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE a Chynllun Gweithredu 5 Mlynedd.

Eglurwyd bod y Cynllun Drafft wedi cael ei ystyried gan y Bartneriaeth AHNE yn ei gyfarfod ar 15 Mai, 2015. Cafwyd cadarnhad bod adnoddau wedi eu nodi i gyhoeddi'r Cynllun o fewn y gyllideb gyffredinol, a byddai'r gwariant yn cael ei fonitro gydag unrhyw amrywiadau yn cael eu hadrodd trwy'r broses o fonitro'r gyllideb. Mae risg i enw da'r AHNE a'r Awdurdodau Lleol gyda methiant i gyhoeddi'r Cynllun Rheoli Statudol, gan y gallai cyllid gan CNC a Llywodraeth Cymru gael ei dynnu'n ôl.

Canmolodd y Cynghorydd D. Butler yr adroddiad a'r gwaith a wnaed, a mynegodd y farn y bydd y lliwiad a'r ffotograffau a ddefnyddir wedi darparu blas o'r ardal.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD - bod y Cydbwyllgor yn mabwysiadu'n ffurfiol Cynllun Rheoli AHNE 2014 - 2019.

12 DYHEADAU DYFFRYN CEIRIOG I'W GYNNWYS YN YR AHNE

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan sefydliadau amrywiol yn Nyffryn Ceiriog, gan gynnwys Cynghorau Cymuned, yn gofyn am gefnogaeth y Cydbwyllgor ar gyfer cynnwys Dyffryn Ceiriog yn yr AHNE.

Eglurodd fod yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn gofyn y dylid ceisio barn Aelodau ar y posibilrwydd fod y Pwyllgor, fel Cydbwyllgor statudol, yn cyflwyno adroddiad i'r corff priodol gan wneud argymhellion i gynnwys Dyffryn Ceiriog yn yr AHNE. Mynegodd y Cynghorwyr H.L.I. Jones a D. Butler y farn y byddai hyn yn fater adnoddau.

Eglurodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y byddai'n rhan o gylich gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud argymhellion o'r fath, ac i Lywodraeth Cymru i gymeradwyo'r argymhellion. Cyfeiriodd at yr ardal helaeth dan sylw a barn a fynegir gan eraill sydd â diddordeb, megis Cyngor Sir Powys a chymunedau ffermio, a lefel y gefnogaeth y gellid eu sicrhau.

Eglurwyd gan Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y byddai angen yr egwyddor yn yr achos hwn i ddeillio o Lywodraeth Cymru, a oedd ar hyn o bryd yn adolygu tirweddau gwarchoddedig. Teimlai y gellid mewn egwyddor gynnig cefnogaeth gan y Cydbwyllgor pe bai Aelodau yn dymuno hynny, ac awgrymodd y gallai'r mater gael ei ddilyn gan geisio cael cefnogaeth Aelodau'r Cynulliad perthnasol a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunwyd bod ymatebion yn cael eu hanfon, mewn ymateb i'r ohebiaeth a dderbyniwyd, gan esbonio bod y cais wedi cael ei drafod a'u bod yn deall rhinweddau'r achos. Fodd bynnag, mae pryderon wedi'u mynegi gan y Pwyllgor fod y mater hwn wedi bod yn seiliedig ar adnoddau. Roedd Aelodau hefyd wedi nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o dirweddau dynodedig, ac y gallai'r cyswllt priodol fod trwy Aelodau'r Cynulliad neu Weinidogion Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y byddai swyddogion yn hapus i gysylltu a gweithio gyda Phartneriaeth Y Waun a Dyffryn Ceiriog.

PENDERFYNWYD - bod y Cydbwyllgor yn cytuno:-

- (a) derbyn yr adroddiad a nodi'r safbwynt;
- (b) bod ymatebion yn cael eu hanfon, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor, yn ymateb i'r ohebiaeth a dderbyniwyd, a
- (c) bod swyddogion yn cysylltu ac yn gweithio gyda Phartneriaeth Y Waun a Dyffryn Ceiriog.

13 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Ystyriwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol o Gydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy:-

17 neu 24 Mehefin, 2016
18 neu 25 Tachwedd, 2016

Cytunodd y Pwyllgor fod Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cysylltu ag Aelodau'r Cydbwyllgor a chytuno ar ddyddiadau addas.


Hysbysodd y DMO/S yr Aelodau mai cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor fydd y cyfarfod blynyddol, a byddai'r agenda yn cynnwys eitem fusnes yn ymwneud â Phenodi Cadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

PENDERFYNWYD :-

- (a) Bod Swyddog ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cysylltu ag Aelodau o'r Pwyllgor ac yn cytuno ar ddyddiadau addas ar gyfer cyfarfodydd Cydbwyllgor ANHE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn y dyfodol, a
- (b) bod yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Mehefin, 2016 yn cynnwys eitem fusnes yn ymwneud â Phenodi Cadeirydd y Cydbwyllgor am y flwyddyn ddilynol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Cofnodion y Cyfarfod
a gynhaliwyd ar
ddydd Gwener 13th Mai 2016
yn
Siambr y Cyngor, Prestatyn
am 10:00 o'r gloch

Aelodau Partneriaeth AHNE

Yn cynrychioli Rheoli Tir

Gareth Wyn Jones
Sharron Jones

Yn cynrychioli Buddiannau Unigol

Helen Walker
John I Roberts

Yn cynrychioli Buddiannau Gwledig

Christine Evans
Roger Cragg

Yn cynrychioli Buddiannau Tirwedd

Michael Skuse
(Cadeirydd y Gweithgor SDF)

Yn cynrychioli Buddiannau Hanesyddol

Tony King

Yn cynrychioli'r Amgylchedd Naturiol

Les Starling

Yn cynrychioli'r Amgylchedd Adeiledig

Philip Durrell

Yn cynrychioli buddiannau Busnes

Dewi Davies

Cynrychiolwyr AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE)
David Shiel (Swyddog AHNE Cynorthwyol)
Tony Hughes (Swyddog Cynllunio AHNE)
Karen Holthofer (Swyddog Cyfathrebu AHNE)
Ceri Lloyd (Swyddog Datblygu Cynaliadwy AHNE)

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Y Cynghorydd Hugh Jones
(Cadeirydd y Cydbwyllgor AHNE)
Y Cynghorydd RJ Dutton OBE
Y Cynghorydd Lloyd Kenyon
Anna Irwin (Uwch Swyddog yr Amgylchedd a Chadwraeth)

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorydd Merfyn Parry
Y Cynghorydd Martyn Holland (Cadeirydd y
Gweithgor Cymeriad Tirwedd ar Amgylchedd Adeiledig)
ynghyd â
Huw Rees (Pennaeth Gwasanaeth Cefn Gwlad a
Threftadaeth CSDd)

Yn cynrychioli Cyngor Sir y Fflint

Y Cynghorydd Paul Cunningham (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd Colin Legg
ynghyd â
Tom Woodall
(Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad a ROW CSFf)

Arsyllwr Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Paul Mitchell

Yn cynrychioli Mynediad a Hamdden
Andrew Worthington OBE (Cadeirydd)

Yn cynrychioli Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Amy Green
(Swyddog Prosiect Tirwedd Byw Alun a Chwiler)

Arsyllwr yn y Cyfarfod – Cyfieithydd

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: - Y Cyng. Carolyn Thomas, Y Cyng. Huw L Jones, Y Cyng. Ian Roberts, Y Cyng. Stuart Davies, David Davies, Helen Mrowiec, Ian Papworth, Sandy Archdale

Croeso

Agorodd y Swyddog AHNE y cyfarfod a chroesawodd yr aelodau i gyfarfod yr Haf o'r Bartneriaeth.

1. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bartneriaeth ar gyfer 2016/17
Eglurodd y Swyddog AHNE bod y Cadeirydd yn cael ei benodi'n flynyddol, a'i bod bellach yn amser ethol Cadeirydd newydd ar gyfer 2016/17. Y Cyng Stuart Davies oedd y Cadeirydd presennol ond nid oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod heddiw. Dywedodd y Swyddog AHNE bod swydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bartneriaeth yn agored i unrhyw aelod oedd yn gwasanaethu ar y Bartneriaeth, a byddai ganddynt rolau allweddol o ran hyrwyddo'r AHNE. Cafwyd trafodaeth. Roedd yr aelodau'n gefnogol i'r awgrym y dylai aelodau etholedig ac anetholedig gymryd rôl y Cadeirydd bob yn ail.

Dywedodd Mr P Durrell ei fod yn deall mai un o rolau'r Cadeirydd oedd cynrychioli barnau'r Bartneriaeth i'r Cydbwyllgor a gofynnodd p'un a fyddai hyn yn parhau gydag aelod anetholedig. Ymatebodd Cadeirydd y Cydbwyllgor, y Cynghorydd Hugh Jones, y byddai, ac y byddai'n gwahodd y Cadeirydd newydd a benodir i bob un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

Gofynnodd y Swyddog AHNE i'r aelodau am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Bartneriaeth.

Cynigiodd Mr John Roberts Mr Andrew Worthington OBE, a chyfeiriodd at wybodaeth a phrofiad helaeth Andrew yn y diwydiant Hamdden a Thwristiaeth. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Paul Cunningham. Ni chafodd unrhyw aelodau eraill eu henwebu.

PENDERFYNWYD

Penderfynwyd yn unfrydol penodi Mr Andrew Worthington OBE yn Gadeirydd y Bartneriaeth ar gyfer 2016/17.

Dywedodd Mr Worthington ei bod yn wir fraint cael y rôl fel Cadeirydd y Bartneriaeth, ac aeth ymlaen i egluro ei fod wedi ennill dros 40 mlynedd o brofiad yn gweithio yn y diwydiant hamdden a thwristiaeth a bod ganddo frwdfrydedd am yr ardal yn sgil ei ddiddordebau personol mewn cerdded y mynyddoedd a rhedeg mynyddoedd. Roedd bellach yn awyddus i ddod â'i brofiad a'i frwdfrydedd i'r Bartneriaeth AHNE.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Tîm AHNE yn gweithredu'n effeithiol ac yn gydwbybodol o fewn eu hadnoddau cyfyngedig. Roedd yn edrych ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Bartneriaeth, a'r Tîm AHNE.

...

Gofynnodd y Swyddog AHNE am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Bartneriaeth.

Cynigiodd Mr John Roberts y Cynghorydd Paul Cunningham, ac eiliwyd hyn gan Mr P Durrell. Derbyniodd y Cynghorydd Cunningham yr enwebiad.

PENDERFYNWYD

Penderfynwyd yn unfrydol penodi'r Cynghorydd Paul Cunningham yn Is-gadeirydd y Bartneriaeth ar gyfer 2016/17

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar Hydref 16^{eg} 2015

PENDERFYNWYD

Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3. Diweddariad ar yr Aelodaeth

Eglurodd y Swyddog AHNE bod dwy sedd wag ar gael bellach ar y Bartneriaeth:

- 3.1 Sedd Wag Un – Aelod Trefol (ar gyfer ardal Ogleddol yr AHNE)

Oherwydd ymrwymadau eraill, roedd Mr Peter Scarll wedi ymddiswyddo o'r Bartneriaeth.

Roedd y sedd wag wedi'i hysbysebu yn y Denbighshire Free Press ac roedd Cynghorau Tref a Chymuned wedi'u hysbysu hefyd. Yn ogystal, cyhoeddwyd y sedd wag ar wefan yr AHNE a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd cyfanswm o naw ymgeisydd wedi gwneud cais a phenodwyd Ian Papworth ar ôl ymgynghori â'r Cydbwyllgor. Roedd Mr Papworth yn gyn Brif Arolygydd gyda Heddlu Gogledd Cymru.

- 3.2 Sedd Wag Dau – Aelod Trefol (Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd)

Oherwydd adleoli, roedd Mr Phillip Thane wedi ymddiswyddo o'r Bartneriaeth. Roedd hysbyseb ar gyfer y sedd wag wedi'i chyhoeddi yn y Denbighshire Free Press a'r Wrexham Leader. Roedd Bwrdd Safle Treftadaeth y Byd, a Chynghorau Tref a Chymuned wedi'u hysbysu hefyd. Yn ogystal, cyhoeddwyd y sedd wag ar wefan yr AHNE a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Cafwyd llawer o ddiddordeb yn y sedd wag, y dyddiad cau ar gyfer ymgeiswyr oed Mehefin 3^{ydd}.

Eglurodd y Swyddog AHNE, oherwydd ehangder daearyddol yr AHNE, roedd yn ceisio sicrhau bod cynrychiolaeth deg o bob rhanbarth.

3. Cyflwyniad: Prosiect Tirwedd Fyw Alyn a Chwiler

Gyda chymorth cyflwyniad Powerpoint, darparodd Swyddog Prosiect Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Amy Green, drosolwg manwl a chryno o'r prosiect. Eglurodd bod ardal y Prosiect Tirwedd Fyw yn cynnwys dyffrynnoedd afon Alyn uchaf ac afon Chwiler, gan gynnwys ardaloedd o fewn yr AHNE. Rhai blynyddoedd yn ôl, roedd ardal y prosiect wedi'i dynodi'n ardal â phroblem o ran bioamrywiaeth gan gyrff amgylcheddol ac unigolion lleol.

Roedd y prosiect yn bartneriaeth oedd yn cynnwys: AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Bywyd Gwyllt Gogledd Ddwyrain Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, BASC, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych. Roedd y mwyafrif o'r tiffeddianwyr wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r prosiect. Cafwyd rhywfaint o gyllid gan WREN a Dŵr Cymru i ariannu'r prosiect am 3 blynedd (hyd at Dachwedd 2017), pryd byddid yn ceisio cael rhagor o gyllid i barhau â'r prosiect. Roedd cyllid SDF AHNE wedi cyfrannu at y prosiect i greu taflenni gwybodaeth a standiau ar gyfer baneri i'w defnyddio mewn digwyddiadau. Cynhaliwyd



diwrnodau gwirfoddolwyr hefyd ar y cyd â'r AHNE a phartneriaid eraill. Pwysleisiodd y Swyddog Prosiect bod gweithio mewn partneriaeth yn rhan annatod o'r prosiect.

Roedd sawl rhywogaeth a warchodir/prin yn bresennol yn ardal y prosiect gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r: Pathew, Ystlumod Pedol Lleiaf, Madfallod Dŵr Cribog, Penigan y Porfeydd, y Boplysen Ddu.

Amlygodd y Swyddog Prosiect Astudiaethau Achos o welliannau i gynefinoedd oedd wedi'u cynnal hyd yma, un ym Modfari, lle cafodd planhigion eu hadfer oedd wedi helpu i gynnal cynefin ar gyfer y Llygod Dŵr. Roedd un arall yn Llanarmon yn Iâl, mewn ardal o dir gwastad oedd wedi'i drawsnewid yn bwll a allai bellach ddarparu cynefin ar gyfer sawl rhywogaeth.

Roedd Ffromlys Chwarennog yn broblem ac roedd nifer o ddyddiau gwirfoddolwyr wedi'u cwblhau gyda rhagor wedi'u cynllunio. Problem hefyd oedd y Minc ac roedd hyfforddiant rheoli Mincod yn cael ei gwblhau.

Roedd y Swyddog Prosiect wedi ymuno â'r Tîm AHNE i gymryd rhan mewn sioeau a digwyddiadau, diwrnodau gwirfoddolwyr, a theithiau cerdded bywyd gwyllt tywysedig. Yn ogystal, cynhaliwyd cyflwyniadau i ysgolion a grwpiau cymunedol.

Fel aelod o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a hwnnw bellach yn Gadeirydd Prosiect Tirwedd Fyw Alyn a Chwiler, datganwyd diddordeb gan Mr Les Starling yn y prosiect, a dywedodd bod y syniad gwreiddiol am y prosiect wedi dod gan y Tîm AHNE. Ers penodi'r Swyddog Prosiect (18 mis yn ôl) roedd y prosiect wedi mynd o nerth i nerth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Prosiect am gyflwyniad diddorol dros ben oedd yn llawn gwybodaeth.

5. Gweithgorau'r Bartneriaeth

Rhododd y Swyddog AHNE ddiweddariad byr ar gynnydd y Gweithgorau gan egluro bod dau o'r Gweithgorau eisoes wedi cynnal cyfarfodydd, ac roedd gan y Gweithgor Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau gyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin 10fed, a byddai'r Gweithgor Hamdden, Twristiaeth ac Ymgysylltu â Busnesau yn cyfarfod ar Fehefin 23ain. Eglurodd y Swyddog AHNE y byddai bob Gweithgor yn penodi eu Cadeirydd eu hunain, a byddai'r Cadeiryddion unigol yn adrodd yn ôl i'r Cyfarfodydd Partneriaeth.

Adroddiad gan Gadeiryddion y Gweithgorau

5.1 Gweithgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF)

Adroddodd Mr Michael Skuse bod y Gweithgor SDF yn gweinyddu Cronfa SDF yr AHNE oedd ar gael yn flynyddol i AHNE'au yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Flwyddyn yn rhedeg o Ebrill i Fawrth bob blwyddyn, ac roedd y swm yn amrywio bob blwyddyn. Y llynedd, roedd yn £60,000 ac eleni roedd £54,000 ar gael i'w ddyrannu i achosion haeddiannol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Yn ychwanegol i'r swm sylfaenol, mewn rhai blynyddoedd, roedd cyllid pellach ar gael yn ystod y flwyddyn, oedd yn gyfanswm o £6,000 y llynedd. Nid oedd cyllid SDF ond yn darparu peth o'r arian a geisir gan yr ymgeisydd, a byddid yn ychwanegu ato o ffynonellau eraill e.e. Ymddiriedolaethau Elusennol, Asiantaethau'r Llywodraeth ac, yn bwysig iawn, gan bobl leol, oedd yn aml yn wirfoddolwyr gweithgar o fewn y prosiect.



Hyd at fis Mawrth eleni, cymeradwywyd chwech ar hugain o geisiadau gan gynnwys cymorth tuag at: Wyl Gerdded Prestatyn, Coed Actif Alyn, Prosiect Tirwedd Fyw Alyn a Chwiler. Byddai adroddiad llawn ar weithgareddau'r llynedd yn cael ei wneud i'r Gweithgor SDF yn eu cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar Fai 27^{ain}, a byddai'r adroddiad ar gael i Aelodau'r Bartneriaeth hefyd. Hyd yma eleni, cafwyd deg ar hugain o fynegiadau o ddiddordeb.

Pwysleisiodd Mr Skuse bwysigrwydd y Gweithgor SDF i'r Bartneriaeth, a dywedodd ei fod yn teimlo ei bod yn fraint ei chadeirio. Yn ogystal, diolchodd i'r Swyddog Datblygu Cynaliadwy, Ceri Lloyd, a'r Prif Swyddog AHNE a Chefn Gwlad, David Shiel, am eu hymroddiad diwyd i'r SDF.

5.2 Gweithgor Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig yr AHNE

Adroddodd y Cynghorydd Martyn Holland bod y grŵp wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma, i ddechrau, er mwyn diffinio rôl y grŵp. Ers hynny, ymgynghorwyd â'r grŵp ynghylch ceisiadau cynllunio. Dywedodd unwaith eto mai'r Cydbwyllgor oedd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar ymatebion a bod y Gweithgor yn darparu cyngor arbenigol yn unig. Roedd cyflwyniadau i'r grŵp wedi'u cwblhau gan Adrannau Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) yr oeddynt ar fin cael eu cyhoeddi. Byddid yn cynnal ymgynghoriadau pellach.

Roedd y grŵp wedi gwneud sylwadau ar ddau ddatblygiad mawr ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd Cynllun Gweithredu wedi'i gwblhau ar gyfer y grŵp. Cafwyd trafodaeth frwd ynghylch 'dyluniad arloesol adeiladau o fewn yr AHNE'. Trafodwyd Statws Awyr Dywyll hefyd, a chydabuwyd bod llawer o ymwelwyr eisiau mynd i ardal a chanddi Statws Awyr Dywyll. Erbyn hyn roedd gan Barc Cenedlaethol Eryri Statws Awyr Dywyll.

Roedd Adeiladau Rhestredig Mewn Perygl o fewn yr AHNE wedi'u trafod hefyd, a byddai'r Grŵp yn cysylltu'n agos â'r Gweithgor Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau.

Diolchodd Cadeirydd y Cydbwyllgor, y Cynghorydd Hugh Jones, i Gadeiryddion y Gweithgorau a dywedodd bod eu hadroddiadau yn dangos pa mor hanfodol yr oedd rôl y Gweithgorau i'r Bartneriaeth.

Hefyd, diolchodd y Swyddog AHNE i Gadeiryddion y Gweithgorau a dywedodd ei bod yn bwysig i'r aelodau adrodd yn ôl i'r Bartneriaeth.

Cadarnhaodd y Swyddog AHNE, yn hytrach na chofnodion ffurfiol, y byddai dim ond nodiadau byr o gyfarfodydd y Gweithgorau'n cael eu cwblhau gyda chamau gweithredu, gyda'r Cadeiryddion yn adrodd yn ôl i gyfarfodydd y Bartneriaeth.

PENDERFYNWYD

Bydd nodiadau pob Gweithgor yn cael eu dwyn i sylw Swyddog Cyfathrebu'r AHNE i'w cylchredeg i aelodau'r Bartneriaeth.

6. Fforwm Blynyddol yr AHNE Adolygiad o Fforwm y Llynedd

Amgylchedd Hanesyddol yr AHNE

Darparodd y Swyddog AHNE drosolwg byr o Fforwm y llynedd a gynhaliwyd ar Dachwedd 20^{ain} 2015 ac a drefnwyd gan Gyngor Sir y Fflint yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. Thema'r Fforwm oedd 'Amgylchedd Hanesyddol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy' a rhoddwyd y prif gyflwyniadau gan:



Fiona Gale – Archaeolegydd y Sir, Ian Grant – Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, Richard Hankinson – Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys a Dr Rachel Pope – Prifysgol Lerpwl. Roedd dros 40 o bobl wedi mynychu'r fforwm. Dywedodd y Swyddog AHNE y bu fformat y Fforwm yn llwyddiant ac mai hwn fyddai'r templed ar gyfer digwyddiadau i'r dyfodol.

6.1 Cynigion ar gyfer y Fforwm eleni

Gofynnodd y Swyddog AHNE i'r aelodau ystyried thema ar gyfer y Fforwm yr hydref hwn.

Cynigion:

Tirwedd a Chelfyddyd yr AHNE	- Fel rhan o 'Brosiect Ein Tirwedd Pictiwrésg'
Twristiaeth o fewn yr AHNE	- Y Flwyddyn Antur/y Flwyddyn Antur nesaf
Prosiect Tirwedd Alyn a Chwiler	- Bioamrywiaeth
Rheolaeth Gynaliadwy	- Prosiect Pori
Ceiliogod Du	- Prosiect Adfer

Cafwyd trafodaeth ac awgrymwyd y gellid cynnal dau ddigwyddiad, un yn yr hydref (i gynnwys 'Prosiect Ein Tirwedd Pictiwrésg'), ac un yn yr haf (i gynnwys Twristiaeth yn yr AHNE).

PENDERFYNWYD

Gofyn i gyfarfod y Gweithgor Hamdden, Twristiaeth ac Ymgysylltu â Busnesau ffurfioli'r trefniadau yn ei gyfarfod nesaf.

7. Cynllun Rheoli'r AHNE

Darparodd y Swyddog AHNE Cynorthwyol, David Shiel, ddiweddariad ar Gynllun Rheoli'r AHNE, ac eglurodd bod y Cynllun wedi'i fabwysiadu gan y Cydbwyllgor yn dilyn ymgynghori yr haf diwethaf. Roedd y Cynllun yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd. Diolchodd cadeirydd y Cydbwyllgor, y Cynghorydd Hugh Jones, i Mr David Shiel am eu holl waith caled yn cwblhau'r hyn oedd yn ddogfen ardderchog.

8. Adolygiad o Ddiwrnodau Ymgysylltu'r AHNE a Dyddiadau i'r Dyfodol

Diolchodd y Swyddog AHNE i'r aelodau a oedd wedi mynychu'r diwrnodau ymgysylltu a gynhaliwyd yn ddiweddar. Dywedodd bod niferoedd da wedi mynychu oedd wedi rhoi cyfle i aelodau rwydweithio â'i gilydd yn ogystal â chael dysgu mwy am safleoedd allweddol o fewn yr AHNE. Dywedodd y mwyafrif o'r aelodau eu bod wedi mwynhau natur anffurfiol y diwrnodau ymgysylltu a'u bod wedi ehangu eu dealltwriaeth o'r AHNE. Cynigiodd un aelod y dylid trefnu taith gerdded fer/ymweliad â safle i aelodau nad oeddynt yn gallu cerdded yn bell iawn.

Dywedodd y Swyddog AHNE y gellid estyn gwahoddiad anffurfiol i bartion eraill sydd â diddordeb i'r ymweliadau â safleoedd a'u cyflwyno i'r grŵp. Cytunodd yr aelodau bod yr ymweliadau â safleoedd wedi profi i fod yn hanfodol o ran meithrin y Bartneriaeth, ac y dylent barhau.

Cododd Mr Tony King bryderon, yn yr Ymweliad Safle diweddar â Chwarel Aberduna, nad oedd yr aelodau wedi ymweld â'r Cwt Injan, oedd yn adeilad



rhestredig oedd mewn perygl o ganlyniad i goed goraeddfed a blannwyd yn wreiddiol i sgrinio'r chwarel.

8.1 Roedd tri dyddiad i'w nodi ar gyfer Diwrnodau Ymgyfarwyddo pellach:

Llethrau Prestatyn	- Dydd Gwener 1af Gorffennaf
Rheilffordd Llangollen	- Dydd Gwener 16eg Medi
Caer Drewyn	- Dydd Gwener 4ydd Tachwedd

Gofynnodd y Swyddog AHNE i'r aelodau ystyried lleoliadau ar gyfer rhagor o ymweliadau â safleoedd.

Cafwyd trafodaeth. Ymweliadau arfaethedig â safleoedd:

Llanarmon yn Iâl	- pentref amlwg o fewn yr AHNE
Tŵr y Jiwbilí	- nodwyd fod un ymweliad safle eisoes wedi'i gwblhau â'r Tŵr
Fferm weithredol o fewn yr AHNE	- sut y mae fferm/ffermwr yn gweithio o fewn yr AHNE

Gweithredu

David Shiel, Howard Sutcliffe, Helen Mroweic, Ceri Lloyd, Karen Holthofer

9. Eitemau Brys

9.1 Parcio o fewn yr AHNE

Cododd Mr Michael Skuse bryderon ynghylch materion o ran parcio o fewn yr AHNE, a dywedodd, ar ymweliadau diweddar o fewn yr AHNE na fu modd iddo barcio ei gar ym meysydd parcio Moel Famau, Loggerheads, Llangwyfan neu Llantysilio. Roedd yn ymddangos, po fwyaf llwyddiannus y mae'r AHNE o ran twristiaeth, yr anoddaf yr oedd cael lle i barcio. Cafwyd trafodaeth.

Dywedodd Mr David Shiel bod maes parcio Moel Famau wedi cael ei ymestyn dair gwaith a bod maes parcio Loggerheads am gael ei ymestyn yn fuan. Roedd parcio yn broblem gynyddol i'r AHNE. Cynhwyswyd parcio yn y Strategaeth Twristiaeth Cynaliadwy. Dywedodd y Swyddog AHNE y dylid ystyried y posibilrwydd o gael systemau Parcio a Theithio. Roedd yr AHNE wedi rhedeg gwasanaeth bysiau mini i leihau nifer y ceir i mewn ac allan o Langollen ddwy flynedd yn ôl, a bu'n llwyddiant.

9.2 Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol Cymru – Atodiad 1
Adolygiad Tirweddau a Warchodir yng Nghymru

Adroddodd y Swyddog AHNE bod ganddo sedd ar Weithgor Tirweddau'r Dyfodol Cymru, a chylchredodd gopi o lythyr a anfonwyd yn ddiweddar at y Gweinidog Adnoddau Naturiol yn Llywodraeth Cymru (Carl Sergeant AC) a oedd yn crynhoi'r sefyllfa bresennol.

- 9.3 **Amllder Cyfarfodydd yr AHNE**
Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ystyried p'un a oedd dau gyfarfod y flwyddyn o'r Bartneriaeth AHNE yn ddigon. Cafwyd trafodaeth. Cynigiwyd y byddid yn cynnal trydydd cyfarfod a fyddai'n canolbwyntio ar thema arbennig e.e. hamdden, bioamrywiaeth.

PENDERFYNWYD

I'r Tîm AHNE drefnu dyddiad ar gyfer trydydd cyfarfod llawn o'r Bartneriaeth AHNE.

10. **Dyddiad a Lleoliad Cyfarfod i'r Dyfodol**
Dydd Gwener 21^{ain} Hydref 2016
Am 10:00 o'r gloch.

DRAFT

APPENDIX 1

Minister for Natural Resources
Welsh Government
Ty Hywel
Pierhead Street
Cardiff Bay CF99 1NA

3 May 2016

Dear Minister

When I accepted the role as Chair of the Future Landscapes Wales working group I agreed to provide you with an interim update prior to the elections to the National Assembly. This note performs that function. It does not pre-judge the conclusions of the Working Group and Project Group activity; they will follow in due course. Instead it illustrates the scope of discussions we have had since January and provides a sense of the broad direction of travel across the whole Future Landscapes Wales programme.

The Marsden report has triggered a significant debate within the Future Landscapes Wales groups about the principles and functions for designated landscapes in a Wales which has a clear focus on the well-being of future generations. Over a relatively short space of time the Future Landscapes Wales programme has taken the Marsden Report, isolated its key themes and recommendations and considered them within the new legislative framework; a context much better understood now than twelve to eighteen months ago. Our deliberations have been driven by an ambitious and collaborative spirit from all participants.

The relationship between people and place has emerged as an important element of well-being; the landscapes of Wales reflect this relationship. Our discussions are considering how designated landscapes both in their present form and any future approaches can be managed to enhance their distinctive qualities using the principles of sustainable management of natural resources as defined in the Environment (Wales) Act in ways which maximise the contribution to the well-being goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Act.


It is clear that new ways of working will need to be adopted. An approach that is underpinned by principles which respect and strengthen the relationship between people and place may lead to better shared outcomes. Such principles are also applicable in areas outside the current designated landscapes.

• • •

Flexibility in structures and governance has also been discussed. This approach may better respect the distinctive qualities of landscapes and the balance between national and local interests than the more centrally determined and uniform structures currently available in statute. Possible approaches include, adopting basic standards for governance for any entity associated with an existing area or proposed for a new area. This would then allow for the needs and opportunities of the specific area to determine the precise approach, helping to unlock genuinely participatory approaches to landscape management. We have also considered enabling existing statutory authorities or lead bodies to request changes to their structure or status where they can demonstrate that doing so will enhance delivery.

The special qualities of the existing designated landscapes extend beyond a visual amenity interpretation of natural beauty and incorporate the potential for soil, carbon, and water management, and the potential sustainable management of other valuable natural resources. The working group wants a national conversation about Wales' landscapes and their value to the nation. The public should play a part in determining a contemporary interpretation of the special qualities of designated landscapes. The existing designated landscapes should then be able to state clearly the respective special qualities to be enhanced.

